


TRYCHINEB ABERFAN



BEFORE



AFTER

Y ddelwedd wedi ei ddarparu gan: Wikimedia Commons

Ym 1966, bu farw 116 o blant a 28 o oedolion pan lithrodd tomenni glo ar bentref Aberfan, ger Merthyr Tudful yn Ne Cymru. Adeiladwyd pentyrrau sborion – sef tomenni artiffisial yn cynnwys deunyddiau a oedd wedi deillio o gloddio am lo – yn union uwchben y pentref ar ôl i'r pwll glo redeg allan o le. Y Bwrdd Glo Cenedlaethol a oedd yn gyfrifol am y gwastraff hwn.

Yn ystod mis Hydref 1966, cafwyd cyfnod o law trwm. Ar 21 Hydref, dechreuodd y domen lithro i gyfeiriad y pentref. Cafodd Ysgol Iau Pantglas a thai cyfagos eu claddu dan y sborion trwm a lithrai'n gyflym i lawr y mynydd. Hefyd, dinistriwyd dwy brif bibell ddŵr, ac ychwanegodd hynny filiynau o alwyni o ddŵr at slyri'r sborion.

Cafodd ystafelloedd dosbarth eu dymchwel a'u llenwi gan laid a rwbel. Bu farw staff wrth iddynt geisio defnyddio'u cyrff ac offer yr ystafell ddosbarth i amddiffyn y plant. Ar ôl i'r tirlithriad ddod i ben, caledodd gan greu twmpath slyri 300 troedfedd o uchder.

Eisiau rhagor o wybodaeth?

peoplescollection.wales/collections

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Ers blynnyddoedd, roedd trigolion a swyddogion lleol wedi rhybuddio'r Bwrdd Glo Cenedlaethol bod y tomenni glo uwchben y pentref yn ansefydlog. Er mwyn osgoi unrhyw fai, honnodd y Bwrdd Glo mai trasiedi anrhagweladwy oedd y drychineb.

Ni soniodd S.O. Davies, AS Merthyr Tudful, am y posibilrwydd y gallai'r domen lithro gan ei fod yn ofni y byddai'r pwll glo'n cael ei gau.

Ym 1968, cymerodd y llywodraeth £150,000 o Gronfa Trychineb Aberfan er mwyn helpu i dalu'r Bwrdd Glo i gael gwared â thomenni peryglus eraill gerllaw'r pentref. Ni ddychwelwyd yr arian hwn tan 1997, yn dilyn gwrthwynebiadau gan bobl leol.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Fe wnaeth y Bwrdd Glo feio pawb ac eithrio ef ei hun. Rhoddodd y bai ar y tywydd, y glaw, y tarddellau yn y domen, popeth ac eithrio'i fethiant a'i esgeulustod ei hun”

Gwynfor Evans AS

“Mae methiant y Bwrdd Glo Cenedlaethol i dderbyn cyfrifoldeb am Drychineb Aberfan, ynghyd â'r ffaith ei fod wedi defnyddio arian Cronfa Trychineb Aberfan i gael gwared â thomenni sborion glo, yn ddau anghyfiawnder enfawr y bu'n rhaid i bobl Aberfan eu hwynebu ar ôl y drychineb. Fe wnaeth yr anghyfiawnderau hyn feithrin gwydnwch a phenderfynoldeb y Pentref i frwydro'n ôl a sicrhau cyfiawnder i gymuned Aberfan”

Jeffrey Edwards MBE, un o oroeswyr trychineb Aberfan